LEWIS, WILLIAM MORRIS (1839 - 1917), gweinidog (MC)

Enw: William Morris Lewis
Dyddiad geni: 1839
Dyddiad marw: 1917
Priod: Lettice Maria Lewis (née Lloyd)
Rhiant: Enoch Lewis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog (MC)
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 9 Mai 1839 yn Abergwaun, Penfro, mab y Parch. Enoch Lewis. Addysgwyd ef yn seminari'r Dr George Rees; Coleg y Bala, Coleg Normal Abertawe a Choleg Trefeca. Dechreuodd bregethu yn 1856, ac ordeiniwyd ef yn 1863. Priododd, 1859, Lettice Maria Lloyd, ac ymsefydlodd y ddau yn y T Llwyd ger Holywell, plwyf Llan-lwy, Penfro. Codwyd ganddynt gapel Treffynnon yn ymyl eu cartref, a buont yn gefn mawr i'r achos. Bu'n llywydd Sasiwn y De yn 1893-94. Cyfrifid ef yn ei ddydd yn gryn ddiwinydd ac ysgolhaig Beiblaidd, a bu'n gohebu ac ysgolheigion megis Adolf Harnack ac H. M. Gwatkin; cyfeillachai hefyd â Thomas Charles Edwards. Cyfrannodd lawer i'r *Traethodydd*, *Y Drysorfa*, ac i gylchgronau Saesneg. Cyhoeddwyd ei Ddarlith Davies, ar Edifeirwch, a draddodwyd yng Nghymanfa Gyffredinol 1900. Troswyd ei esboniad ar *Yr Epistol at yr Hebreaid* i'r Almaeneg, ac addefai W. M. Ramsay rym ei ddadl mai Paul oedd ei awdur. Bu farw 26 Mai 1917, a chladdwyd ei weddillion ym mynwent Holywell.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

Monthly treasury organ of the English Calvinistic Methodists, or Presbyterian Church of Wales, Tachwedd 1901

Blwyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd, 1918

G. M. Roberts, *Capel Treffynnon* (1967)

Darllen Pellach

'Y Parch. W. Morris Lewis, Tyllwyd,' *Trysorfa y Plant*, Gorffenaf 1900, t.169-170

Erthygl Wicipedia: William Morris Lewis

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20804831

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu